PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 17 TACHWEDD 2020

Present: Hugh Thomas(Chairperson)
Gavin McArthur a/ac David Price
Councillors Goodway, Howells a/ac Williams

## 1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Cunnah, Lister a Simmons.

## 2 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

## 3 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Medi a 20 Hydref 2020 fel cofnod cywir gan y Pwyllgor. Nodwyd gwall teipograffyddol a'i gywiro yng nghofnodion 20 Hydref 2020.

Materion y Pwyllgor Archwilio

## 4 : IAN ARUNDALE - CAIS AM ABSENOLDEB

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais i ymestyn absenoldeb Aelod Annibynnol cyn i'r Cyngor ei gymeradwyo'n ffurfiol. Atgoffwyd yr Aelodau bod y Cyngor wedi cymeradwyo absenoldeb Mr Ian Arundale ar 28 Tachwedd 2019 i'w alluogi i ymgymryd â chontract byrdymor gyda Heddlu Cleveland. Cawson nhw fanylion cais ffurfiol Mr Arundale i ymestyn ei absenoldeb hyd at ddiwedd y flwyddyn ddinesig.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr Aelod Annibynnol wedi trafod y cais gydag ef yn bersonol, a soniodd am ei ymrwymiad cryf parhaus i ddychwelyd fel Aelod gweithgar o'r Pwyllgor Archwilio. Roedd yr Aelodau'n cefnogi'r cais am absenoldeb a phenderfynon nhw argymell cymeradwyo'r cais i'r Cyngor Llawn.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn:

(1) nodi'r cais i estyn absenoldeb Ian Arundale hyd at ddiwedd blwyddyn ddinesig 2020/21;

(2) Argymell cymeradwyo'r cais i'r Cyngor Llawn.

## 5 : AMSEROEDD CYFARFODYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cafodd y Pwyllgor nodyn briffio yn rhoi cyfle i'r Aelodau adolygu amseroedd cyfarfodydd er mwyn cefnogi cyfranogiad effeithiol. Gofynnwyd i'r Aelodau rannu eu barn ar amseroedd cyfarfodydd y Pwyllgor a phennu'r amser mwyaf addas ar gyfer cynnal cyfarfodydd yn y dyfodol.

Gwahoddwyd pob aelod i wneud sylwadau. Dywedodd Gary Jones, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod dau aelod nad oeddent yn bresennol wedi nodi mai eu dewis fyddai cynnal cyfarfodydd gyda'r nos oherwydd anawsterau o ran ymrwymiadau gwaith. Mynegodd aelodau'r Pwyllgor eu barn a gwnaethon nhw nifer o awgrymiadau gan gynnwys dechrau'r cyfarfodydd yn y prynhawn ac yn y nos, bob yn ail. Mynegodd yr Aelodau y byddai'n well ganddynt gael cyfarfodydd ar ddiwrnod penodol o'r wythnos a chytuno ar ddyddiadau ac amseroedd ymhell ymlaen llaw. Gofynnwyd i'r Pwyllgor roi sylw i'r busnes sydd i'w drafod ar yr agenda wrth ystyried amseroedd dechrau'r cyfarfodydd.

Trafododd yr Aelodau hefyd y posibilrwydd o barhau i fynychu cyfarfodydd o bell yn y dyfodol er mwyn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i'r Aelodau o ran sut y maent yn mynychu cyfarfodydd. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod y logisteg a'r materion technegol sy'n ymwneud â'r posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd 'hybrid', lle mae rhai aelodau'n mynychu'n bersonol a rhai aelodau'n mynychu o bell, yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.

Roedd y swyddogion yn unfrydol yn eu barn mai eu rôl hwy yw cefnogi'r Pwyllgor a byddent yn cael eu harwain gan yr amseroedd dechrau sy'n briodol ym marn yr Aelodau. Roedd gwahoddedigion allanol yn cytuno â'r farn honno.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod dau gyfarfod y Pwyllgor Archwilio i’w cynnal yng ngweddill y flwyddyn ddinesig. Gyda chymeradwyaeth y Pwyllgor, awgrymwyd parhau i gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ar ddydd Mawrth ond eu bod yn dechrau yn y prynhawn ac yn y nos, bob yn ail fel treial, ac yn dilyn hynny gofynnir i'r Aelodau nodi eu dewis wrth symud ymlaen.

PENDERFYNWYD - Bod:

(1) dechrau cyfarfod y Pwyllgor i’w gynnal ar 26 Ionawr 2020 am 4.30pm a’r un ar 23 Mawrth 2021 am 2.00pm;

(2) yn dilyn y cyfarfod ar 23 Mawrth 2021 gofynnir i'r Aelodau nodi eu dewis o ran amseroedd dechrau'r cyfarfodydd wrth symud ymlaen.

Cyllid
6 : DIWEDDARIAD AR GYLLID GAN GYNNWYS MATERION GWYDNWCH

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ddiweddariad ariannol llafar, gan gynnwys cyfeiriad at faterion gwydnwch a materion sy'n ymwneud â Covid-19.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cyngor wedi cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2019/20. Caiff adroddiad monitro Mis 6 ei gyflwyno i'r Cabinet cyn bo hir. Adroddwyd am yr uchafbwyntiau cyffredinol yn adroddiad Mis 6. Cyfanswm y gwariant sy'n gysylltiedig â Covid hyd at ddiwedd mis Medi oedd tua £32 miliwn. Hawliwyd gwariant gan Lywodraeth Cymru tan ddiwedd mis Awst, sef cyfanswm o £27.4 miliwn, ac roedd £25.3 miliwn ohono wedi'i dderbyn. O ran incwm, yr incwm a gollwyd yn Chwarter 1 oedd £13.4 miliwn, y mae £13.1 miliwn ohono wedi'i ad-dalu. Cyflwynwyd yr hawliad ar gyfer Chwarter 2 i Lywodraeth Cymru yn ystod mis Tachwedd, cyfanswm o bron i £9 miliwn. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r gefnogaeth

a'r ymgysylltiad parhaus â Llywodraeth Cymru drwy gydol y pandemig. Hyd yma, cyfanswm y cymorth i awdurdodau lleol ledled Cymru yw £510 miliwn.

O ran safle Mis 6, rhagwelir gorwariant net o £1.133 miliwn. Mae hyn yn welliant o tua £850,000 ar sefyllfa Mis 4 yn dilyn gwelliannau yn y sefyllfa ariannol yn y Gwasanaethau Plant ac Addysg. Mae sefyllfa'r gyfarwyddiaeth yn cael ei gwrthbwyso gan y gronfa wrth gefn gyffredinol a neilltuir yn y gyllideb. Yn ystod y flwyddyn, nodwyd arbedion o £3.1 miliwn sydd wedi galluogi'r cyfarwyddiaethau i wrthbwyso yn erbyn meysydd lle nad oedd arian yn cael ei arbed.

Dangosodd y cynllun fwlch yng nghyllideb y flwyddyn ariannol nesaf o £25 miliwn gyda rhagdybiaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi +1.5% o gymorth. Mae'r pandemig wedi bod yn broblem fawr o ran amcangyfrif y sefyllfa yn 2021/22 ac mae wedi effeithio ar allu'r awdurdod i bennu strategaeth gyllidebol gadarn ar gyfer y flwyddyn. Gwaethygwyd hyn hefyd gan oedi yn y broses yn ystod y flwyddyn gyfredol. Ni fydd y setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ryddhau tan 22 Rhagfyr 2020. Bydd ymgynghoriad ar gynigion y gyllideb yn cael ei gynnal yn syth ar ôl y Nadolig.

7 : MASNACHEIDDIO YN LLYWODRAETH LEOL

Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad ar Fasnacheiddio yn Llywodraeth Leol. Argymhellodd yr adroddiad y dylai Cynghorau ddefnyddio offer hunanarfarnu Archwilio Cymru i ddatblygu strategaeth ar gyfer i ba raddau y maent yn dymuno mynd ar drywydd masnacheiddio. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a chyflwyno sylwadau ar yr adroddiad.

Gwahoddwyd y Pennaeth Cyllid i gyflwyno'r adroddiad. Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai'r bwriad oedd i'r awdurdod ddechrau ymarfer hunan-adolygu ac adrodd i'r Pwyllgor Archwilio ddiwedd y Gwanwyn.

Gwahoddwyd yr aelodau i wneud sylwadau neu geisio eglurhad ar yr adroddiad.

Mynegodd yr Aelod bryderon am yr iaith a ddefnyddiwyd yn adroddiad Archwilio Cymru. Roedd yr Aelod o'r farn nad gwasanaethau masnachol yw gwasanaethau cyhoeddus. Felly, rhaid cwestiynu pam y byddai gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu mewn ffordd fasnachol.

Gofynnodd Aelod pam yr oedd swyddogion yn ystyried dod â'r materion hyn gerbron y Cyngor pan nad yw'r weinyddiaeth bresennol yn debygol o ystyried masnacheiddio ei gwasanaethau. Dywedodd y Pennaeth Cyllid mai'r bwriad oedd cydnabod adroddiad Archwilio Cymru ac ystyried yr argymhellion er mwyn cael gwybod am yr hyn y gellir ei ddysgu, ei addasu a'i wrthod fel swyddogion.

Mynegwyd pryderon nad oedd cyfeiriad polisi gan y weinyddiaeth ynghylch masnacheiddio gwasanaethau ac felly, er mwyn diogelu gwasanaethau cyhoeddus, ni ddylid ystyried ymarfer hunanasesu o'r fath. Roedd aelodau'r Pwyllgor o'r farn mai penderfyniad gwleidyddol i'r Cyngor oedd masnacheiddio. Holodd yr Aelodau ai'r Pwyllgor Archwilio oedd y fforwm priodol i drafod y mater hwn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau wrth gwblhau'r dadansoddiad y gallai fod cyfle i fynegi'r pryderon a fynegwyd gan yr Aelodau. Croesawodd Sara-Jane Byrne ystyried yr adroddiad yn weithredol. Dywedodd yr aelodau nad oedd adroddiad Archwilio Cymru yn rhagnodol yn ei ddiffiniad o 'fasnacheiddio' a bod sbectrwm eang o ddulliau o fasnacheiddio.

PENDERFYNWYD - Bod:

(1) Y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad.

(2) Y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r ymarfer hunan-adolygu erbyn Ebrill 2021

Llywodraethiant a Rheoli Risg
8 : RHEOLI RISG GORFFORAETHOL 2020/21 (DIWEDDARIAD CANOL BLWYDDYN)

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y diweddariad Canol Blwyddyn ar Reoli Risg Corfforaethol ar gyfer 2020/21. Cafodd y Pwyllgor grynodeb o'r adroddiad gan gynnwys yr effaith a'r heriau sy'n gysylltiedig â pandemig Covid-19 ar y gofrestr risg a'r gwaith parhaus sy'n sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â Brexit yn cael eu rheoli'n briodol.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod dau Risg Gorfforaethol mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu a chyflawni'r rhaglen cyflawni Uchelgais Prifddinas yn cael eu rheoli ar lefel cyfarwyddiaeth. Cynigiwyd hefyd y dylid ehangu risg o'r enw Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion er mwyn sicrhau bod barn gorfforaethol ar y risgiau sy'n gysylltiedig â chynllunio seilwaith ar draws y Cyngor.

Mewn perthynas â'r risg Iechyd a Diogelwch, nododd Aelod y broses o hail-bwrpasu mesurau rheoli heintiau mewn ymateb i Covid-19. Gofynnodd yr Aelodau a ddylid ail-werthuso'r tebygolrwydd y bydd effaith ar y risg honno. Croesawodd y swyddogion y sylw a chytunon nhw i drosglwyddo'r sylw yn ôl i berchennog y risg.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

Archwilio Mewnol
9 : Y TÎM YMCHWILIO AC ARCHWILIO - DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio adroddiadau Cynnydd y Tîm Ymchwilio ac Archwilio Mewnol ar gyfer Chwarter 2.

Rhoddodd yr adroddiadau grynodeb o'r gweithgareddau presennol. Gofynnodd y Rheolwr Archwilio i'r Aelodau nodi bod y Cynllun Archwilio ar ei hôl hi gan fod argyfwng Covid-19 wedi effeithio'n sylweddol ar gleientiaid archwilio a chapasiti'r Tîm Archwilio.

Gofynnodd y Rheolwr Archwilio am gymeradwyaeth y Pwyllgor i ohirio 32 o ymrwymiadau archwilio o'r Cynllun Archwilio. Gofynnodd Aelod am sicrwydd nad oedd unrhyw risgiau sylweddol yn gysylltiedig â'r cam hwnnw. Dywedodd y Rheolwr Archwilio nad oedd yn bosibl gwarantu nad oedd unrhyw risg, ond bod dull

systematig sy'n seiliedig ar risg o flaenoriaethu archwiliadau, lle mae'r holl systemau sylfaenol wedi'u hamserlennu i'w harchwilio, ac nad oedd yr un ohonynt wedi'u gohirio. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod blaenoriaethu pob archwiliad arall wedi ystyried materion fel graddau'r newid a'r risg gynhenid, cynnwys cofrestrau risg, datganiadau sicrwydd rheoli a barn a chwmpas yr archwiliad diwethaf ynghyd â'r amser ers yr adolygiad archwilio diwethaf.
Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod lefel o'r Cynllun Archwilio bob amser nas cyflawnir, a bod yr archwiliadau y cynigir eu gohirio yn cynrychioli meysydd lle ceisir sicrwydd wrth symud ymlaen, ond sy'n llai pwysig i'r farn archwilio flynyddol ar gyfer 2020/21, wrth ystyried cwmpas archwilio, risg, a thrwy drafodaeth cyfarwyddwr.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y Rheolwr Archwilio yn pryderu am lefel yr argymhellion 'coch/ambr' sydd heb eu bodloni ar hyn o bryd ac sydd wedi mynd heibio eu dyddiadau cau, yn enwedig mewn Addysg a Datblygu Economaidd. Roedd y Rheolwr Archwilio o'r farn ei bod yn hanfodol bod argymhellion yn cael eu cyflawni ac y gweithredir arnynt. Fel rhan o ymateb y Cyngor i argyfwng Covid-19, mae gwasanaethau wedi canolbwyntio'n briodol ar fynd i'r afael ag anghenion â blaenoriaeth hanfodol, ond bod angen sicrhau bod argymhellion yn cael eu cyflawni'n amserol. Dywedodd y Rheolwr Archwilio ei fod i fod i adrodd ar y sefyllfa o ran argymhellion agored i'r Uwch Dîm Rheoli a bod y Prif Weithredwr yn parhau i bwysleisio'r angen i ddatblygu argymhellion archwilio yn brydlon.

PENDERFYNWYD - Bod:

(1) Y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad.

(2) Y Pwyllgor yn cymeradwyo gohirio 32 o ymrwymiadau archwilio o Gynllun Archwilio 2020/21.

10 : POLISI DRAFFT AR ATAL GWYNGALCHU ARIAN

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio adroddiad ar y Strategaeth Ddrafft ar Atal Gwyngalchu Arian Cafodd yr adroddiad ei baratoi i roi cyfle i'r Pwyllgor Archwilio roi sylwadau ar y Strategaeth Gwyngalchu Arian a'i hystyried cyn iddi gael ei hystyried i'w chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2020.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y strategaeth ddiwygiedig yn diweddaru'r polisi presennol drwy ymgorffori gofynion Rheoliadau Gwyngalchu Arian, Ariannu Terfysgaeth a Throsglwyddo Cronfeydd (Gwybodaeth am y Talwr) 2017 a Rheoliadau Gwyngalchu Arian ac Ariannu Terfysgaeth (diwygiad) 2019. Roedd y polisi drafft yn destun ystyriaeth a sylwadau gan Aelod Cabinet y portffolio, yr Uwch Dîm Rheoli, cydweithwyr yn yr Undebau Llafur a'r Tîm Cydraddoldeb a chafodd sylwadau a dderbyniwyd eu hymgorffori yn y polisi drafft a atodir yn Atodiad A yr adroddiad.

Dywedodd Aelod nad oedd ganddo unrhyw sylwadau sylweddol, ond y byddai'n hoffi trafod materion technegol gyda'r Rheolwr Archwilio y tu allan i'r cyfarfod, a chytunwyd ar hynny.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

Rheoli’r Trysorlys

11 : ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol (RhG) Cyfalaf, Corfforaethol a'r Trysorlys yr adroddiad ar Berfformiad Rheoli'r Trysorlys ar 30 Medi 2020.

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai cyfanswm y buddsoddiadau oedd £165.8 miliwn. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod cyfraddau llog ar fuddsoddiadau byrdymor wedi troi'n negyddol.

Nid oes unrhyw fenthyciadau newydd wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn hyd yma. Mae benthyciadau ar gyfer prosiectau cyfalaf penodol gan Lywodraeth Cymru a Salix yn cael eu hystyried yn amodol ar gymeradwyo'r prosiectau hynny ac yn cynnwys benthyciadau ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd a dosbarthu ynni a chynlluniau benthyciadau canol trefi y gellir eu derbyn yn ystod gweddill y flwyddyn. Y tybiaethau presennol yw mai'r unig fenthyciadau a gaiff eu disodli yw £20 miliwn o fenthyciadau aeddfedu byrdymor ym mis Ionawr 2021, a gafwyd i ddechrau er mwyn caffael Canolfan y Red Dragon

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

12 : ADRODDIAD HANNER BLWYDDYN

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn manylu ar weithgareddau rheoli’r Trysorlys y Cyngor ers 1 Ebrill 2020 a’r sefyllfa ar 30 Medi 2020.

Cyfeiriodd Aelod at y Gofyniad Ariannu Cyfalaf. Nodwyd y byddai ariannu cyfalaf yn cynyddu o tua £800 miliwn i £1.1 biliwn dros y 5 mlynedd nesaf. Gofynnwyd i’r Rheolwr Gweithredol Cyfalaf, Corfforaethol a'r Trysorlys sut y byddai hyn yn effeithio ar y cyfrif refeniw o ran y taliadau llog sy'n gysylltiedig â'r cynnydd hwnnw.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y cynnydd yn y gofyniad yn gysylltiedig â buddsoddiad sylweddol mewn tai newydd a Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae buddsoddiad mewn ysgolion yn seiliedig ar fodel ariannol lle mae fforddiadwyedd a dulliau ar waith i dalu unrhyw daliadau llog sy'n codi. Mae'r weinyddiaeth hefyd yn anelu at greu 2,000 o dai fforddiadwy o fewn y Cyfrif Refeniw Tai y telir amdano gan incwm rhent a dybir. Adolygir y sefyllfa'n flynyddol fel rhan o'r rhaglen gyfalaf. Mae Strategaeth y Trysorlys yn cynnwys dangosyddion sy'n dangos faint o'r gyllideb refeniw a ddefnyddir i dalu taliadau llog bob blwyddyn.

Gofynnodd yr Aelodau pryd y bydd angen ad-dalu benthyciadau canol trefi a phrosiectau ynni di-log Llywodraeth Cymru ac a fyddai hyn yn arwain at fenthyca pellach. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai'r benthyciadau effeithlonrwydd ynni yn cael eu had-dalu dros 8 mlynedd trwy arbedion a nodwyd o fesurau arbed ynni. Mae angen ad-dalu’r benthyciadau canol trefi o fewn 15 mlynedd. Fel rhan o ddiwydrwydd dyladwy'r Cyngor cymerir cyfamod rhannol. Os yw'r Cyngor wedi rhoi benthyciad i ddatblygwr i adnewyddu safle er mwyn ei ddefnyddio mewn modd buddiol eto, disgwylir i'r benthyciad hwnnw gael ei ad-dalu. Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r benthyciad gael ei ddychwelyd ar bwynt penodol a'r Cyngor sy'n gyfrifol am y risg yn y pen draw. Mae hyn yn arwain at ddiwydrwydd dyladwy ychwanegol ar y Cyngor i sicrhau y gellir ad-dalu'r benthyciadau hyn.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

13 : CAMAU ETO I’W CYFLAWNI

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

14 : GOHEBIAETH

Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth.

15 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

16 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni nodwyd unrhyw eitemau brys.

17 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 26 IONAWR 2021

The meeting terminated at 4.30 pm